**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**04/01/2022**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2315 Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a ddymunodd Flwyddyn Newydd dda i'r aelodau a thrigolion y gymuned.

**2316 Ymddiheuriadau** - dim

**2317 Datganiadau o fuddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Huw Antur ym materion

i. 2324 Dathlu pen-blwydd 100 yr Urdd
ii. 2325i Cais cynllunio NP5/71/L343A Gosod sied ardd Ysgubor Glandŵr, Llanuwchllyn.
iii. 2325ii Cais cynllunio NP5/71/487 Cwt Cymunedol, Llanuwchllyn.

**2318 Cofnodion** Rhagfyr 7fed 2021 **–** cadarnhawyd bod y Cofnodion yn gywir.

**2319 Materion y Clerc**

**Triathlon:** Holwyd 14 o fusnesau lleol am eu barn ar y triathlon. Roeddent yn ddiolchgar am gael mynegi eu barn wrth bobl oedd yn ddi-duedd. Y casgliad oedd bod y triathlon yn drafferthus, ond bod llawer o ewyllys da a chefnogaeth tuag at y trefnwyr lleol a'r cystadleuwyr gan y mwyafrif o'r busnesau (a holl aelodau'r Cyngor). Nodwyd fod busnesau'n gyffredinol wedi crybwyll yr angen i wella trefniadau o ran stiwardio a hysbysebu'n fuan ac eang; mae'r trefnwyr yn ymwybodol o ddiffygion y gorffennol ac wedi mynegi parodrwydd i wella.

Derbyniwyd gwybodaeth gan ddau o brif fusnesau'r gymuned fod y triathlon yn achosi colled ariannol sylweddol oherwydd cau'r briffordd A494. CYTUNWYD yng ngoleuni'r wybodaeth hon na all y Cyngor gefnogi cau'r ffordd A494.

Nodwyd, pe byddai'r trefnwyr yn dewis digolledi'r busnesau, neu newid y *route* fel na fo'r A494 yn cau, yna byddai'r Cyngor yn agored i gefnogi'r triathlon.

**Newid enw tŷ:** Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn mynegi nad ydyw'r pwerau ganddynt i weithredu.

**2320 Cyngor Gwynedd** Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd a soniodd am bremiwm treth cyngor ar ail gartrefi. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai offeryn trwsgl yw hwn i geisio rheoli'r farchnad dai ond ar hyn o bryd dyma'r unig offeryn ar gael i awdurdodau lleol a

rhaid ei ddefnyddio i'r eithaf cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried treth ar arwerthiant tir neu'r drefn cynllunio. Mae gan Gyngor Gwynedd gynlluniau i wario'r arian a dderbynnir o'r premiwm megis datblygu stoc tai, grantiau i brynwyr tro cyntaf, cymorth i adnewyddu tai gwag, cymorth i ychydig o brosiectau hunan-adeiladu, estyn cyfnod o eithrio o dreth cyngor i rai prynwyr cyntaf, datblygu rhai podiau i gartrefi rhai digartref ar frys, a datblygiadau cymdeithasol a gofal eraill. Mae'r cynlluniau yma wedi derbyn clod trwy Gymru ac mae nifer o'r cynlluniau yn cael eu hefelychu gan awdurdodau eraill. Mae Gwynedd yn parhau i aros am fanylion gan Lywodraeth Cymru ar sut i symud ymlaen gydag argymhellion arloesol yn ardal Dwyfor. Diolchwyd yn fawr iawn am yr adroddiad. Trafodwyd yr angen i ledaenu'r wybodaeth ar lawr gwlad. Awgrymwyd fod Sylfeini yn barod i fod o gymorth gyda hyn yn lleol i Lanuwchllyn. Cytunodd y Cynghorydd i estyn cymorth i unigolion lleol.

**2321 Adroddiadau Is-bwyllgorau**

1. <u>Nadolig:</u> derbyniwyd adroddiad Heledd Jones, a oedd yn awyddus iawn i ddiolch i bawb a oedd wedi bod o gymorth gyda'r trefniadau eleni. Diolchwyd yn gynnes i Heledd Jones am arwain gwaith yr is-bwyllgor hwn a chael pob peth mewn trefn. Roedd canmoliaeth uchel i bob peth ac yn arbennig i ymweliad Sion Corn. Diolchwyd hefyd i deulu'r Eagles am eu haelioni ac i bawb a gymerodd rhan yn y Cyngerdd.
2. <u>Y Fynwent:</u> adroddodd Alwyn Roberts o is-bwyllgor 3/1/21 a fu'n trafod awgrymiadau ar gyfer codi cofeb arbennig. Nid oedd y mesuriadau yn cyd-fynd a pholisi'r fynwent ond bydd Swyddog y Fynwent yn trafod awgrymiadau amgen gyda'r teulu sydd eisoes wedi mynegi parodrwydd i gyd-drafod.

   Diweddarwyd y polisi, yn benodol y meintiau sy'n dderbyniol er mwyn cynnwys plinth o dan y garreg, a chytunwyd y dylai cofebion gyd-fynd a'r manylion yn y Polisi. Cynhwyswyd hefyd manylion maint cerrig ar gyfer plotiau claddu llwch.

   Derbyniwyd diweddariad Polisi'r fynwent a dywedwyd bod angen i deuluoedd ac ymgymerwyr fod yn ymwybodol ohono; cytunwyd i ychwanegu ein bod yn bwriadu gwneud gwaith dros gyfnod i newid i fod yn fynwent lawnt.

   Cytunwyd na ddylid gosod carreg heb gael caniatâd; disgwylir derbyn dyluniad gyda mesuriadau manwl ymlaen llaw.

3. <u>Cynllun Ardal:</u> Adroddodd Huw Antur y dilynwyd Penderfyniad y Cyngor ym mis Rhagfyr i baratoi briff ar asesiad tymor hir twristiaeth trwy Benllyn. Cysylltwyd gyda Phartneriaeth Penllyn a gytunodd i gomisiynu asesiad.
   Nodwyd fod angen sylw wrth gyfrif niferoedd ychwanegol ymwelwyr rhag ofn cyfrif dwywaith yr ymwelwyr a fyddai yma beth bynnag am y rheilffordd.

**2322 Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd Huw Antur y derbyniwyd grant ar gyfer creu Hwb ar gyfer cyfleoedd iechyd a lles yn yr ardal. Croesawodd unrhyw sylwadau ac awgrymiadau.

Cadarnhawyd enwau'r cynrychiolwyr a diolchwyd iddynt am gynrychioli'r Cyngor.

**2323 Ariannol:** Derbyniwyd Adroddiad y Swyddog Ariannol. Mae Cyfrif y Cadeirydd bellach wedi ei gau er mwyn lleihau ffioedd banc. Bydd y Swyddog Ariannol yn talu'r Cyfraniadau Cymunedol fel a gytunwyd yng nghyfarfod Rhagfyr.

**2324 Adroddiadau Cynghorwyr:** derbyn adroddiadau

1. Y Gaiman: derbyniwyd ac anfonwyd Cyfarchion yr Wyl. Anfonwyd dolen am gyngerdd y Cyngor Cymuned a derbyniwyd gwybodaeth am wasanaeth Bethel, Y Gaiman.
2. Asedau'r Cyngor: caewyd y toiledau oherwydd y diffyg yn y cyflenwad dwr. Mae problem lleithder yn parhau, ac mae angen tap newydd. Bydd Cynghorwyr a John Manzini yn gwagio pibellau os bydd cyfnod rhewllyd. Efallai bydd angen gosod offer i gyfnewid awyr.
3. Materion lleol y Cynghorwyr:
   i. Dathlu pen-blwydd 100 yr Urdd - ffurfiwyd is-bwyllgor yn cynnwys Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, y Cynghorydd Alan Jones Evans
   ii. Problemau gyda'r cyflenwad dŵr: Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans ei fod wedi bod yn siarad gyda swyddogion a ymddiheurodd am yr anghyfleustra ar 24/12/21. Cafodd eglurhad manwl o'r broblem gan Tom Haynes a bydd Dwr Cymru yn arolygu pob falf yn yr ardal. Mae'r sustem yn hen ac mae'r ardal yn eithaf uchel ar restr uwchraddio, ond annhebyg bydd cyllid ar gael am rai blynyddoedd. Addawodd cysylltu ymhellach i adfer y Gilfach Goffa; awgrymwyd y gellid gwneud y gwaith yn lleol os derbynnir cyllid gan Dwr Cymru.

**2325 Ceisiadau Cynllunio**

1. NP5/71/L343A Gosod sied ardd Ysgubor Glandŵr, Llanuwchllyn. Cytunwyd i holi'r swyddog yn y Parc pam fod cais am sied wedi dod gerbron. Y pryder yw y byddai'r sied yn newid i fod yn uned gwyliau.
2. NP5/71/487 Cwt Cymunedol, Llanuwchllyn - cymeradwywyd
3. NP5/53/576 Tir yn Y Bala – cytunwyd i ofyn am estyniad hyd nes y derbynnir asesiad Partneriaeth Penllyn ar effaith datblygiad twristiaeth ar Benllyn.

**2326 Un Llais Cymru:**

i. Ni ddaeth Cofnodion o'r Cyfarfod Ardal i law.
ii. Cytunwyd i aelodau unigol greu ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i dai gwyliau. Bydd ar Agenda nesaf y Cyngor fel bo ymateb yn dod oddi wrth y Cyngor.
iii. Cytunwyd i gylchredeg ymateb Un Llais Cymru fel canllaw.

**2327 Gohebiaeth**: Derbyniwyd gohebiaeth yn cynnwys

i. Teledu: Diolchwyd i Alwyn Roberts a Mabon ap Gwynfor am eu hymdrechion yn adfer gwasanaeth S4C i'r ardal ar ôl y toriad trydan diwethaf.
ii. Rhannwyd e-bost gan Nerys Siddall am gyfarfod a drefnir gan Byd Mari Jones.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 1/2/22 trwy gyfrwng Zoom *Amser gorffen 9.45pm*

Arwyddwyd……………………………………(Cadeirydd) ____/____/______……………………………(Clerc)